Y broga oedd yn gallu canu

Caredigrwydd / Helpu Eraill / Rhannu

Bob bore byddai'r ffermwr a'i feibion yn mynd am dro i'r caeau i weld sut roedd y gwenith yn tyfu. "Mi fydd o'n barod i'w gynhaeafu yn fuan iawn," meddai'r ffermwr wrth ei feibion un bore.

Bore drannoeth aeth y ffermwr a'i feibion i'r caeau yn ôl eu harfer. Pan aethon nhw i waelod un o'r caeau gwelodd y ffermwr fod rhywbeth neu rywun wedi bod yn bwyta tywysennau'r gwenith. Trodd y ffermwr yn gas at ei feibion, "Pwy sydd wedi bod yma yn ystod y nos?" Bu'r tri mab yn chwilio'n ddyfal i fyny ac i lawr y caeau am olion.

Ond doedd dim i'w weld yn unman.

"Heno," meddai'r ffermwr yn gas, "mi fydd rhaid i ti, fy mab hynaf, wylio a dal y lleidr."

Y noson honno aeth y mab hynaf i'r caeau i wylio. Aeth â phecyn bwyd gydag ef. Ar ei ffordd gwelodd froga mawr tew wrth ymyl y ffynnon yn canu nerth ei ben. "Bydd ddistaw. Mae gen ti lais difrifol. Rhaid i ti beidio â chanu neu fydda i byth yn dal y lleidr sy'n dwyn y gwenith o gaeau fy nhad," gorchmynnodd y mab hynaf.

"Rho i mi rywbeth i'w fwyta." meddai'r broga. "Na, mi ydw i eisiau'r bwyd yma i gyd i mi fy hun," meddai'r mab.

Dechreuodd y broga ganu nerth esgyrn ei ben. Gwylltiodd y mab hynaf. Gafaelodd yn y broga mawr tew a'i ollwng i waelod y ffynnon.

Drwy'r nos eisteddodd yn y cae ond welodd o 'run creadur byw. Erbyn y bore roedd y lleidr wedi dwyn mwy o wenith. Aeth adref i ddweud y newydd drwg wrth ei dad.

"Mae'n rhaid i ti fynd i wylio heno," meddai'r ffermwr wrth ei ail fab. Cychwynnodd yr ail fab i'r caeau, fel roedd yr haul yn machlud. Ar ei ffordd clywodd y broga'n canu.

"Dyna sŵn ofnadwy. Taw y munud yma," meddai wrth y broga. Stopiodd y broga y munud hwnnw. Gofynnodd i'r ail

fab, “Rho rywbeth i mi i’w fwyta?”
“Na’n wir,” meddai’r ail fab. “Mi fydda i eisiau bwyd yn ystod y nos. Dechreuodd y broga ganu nerth esgyrn ei ben.
Gafaelodd y mab ynddo gerfydd ei goes a’i luchio i’r ffynnon. Drwy’r nos, bu’r ail fab yn gwylio. Erbyn y bore roedd mwy o wenith wedi diflannu. Aeth adref yn y bore i ddweud wrth ei dad.
Doedd gan y tad ddim dewis erbyn hyn ond anfon ei fab ieuengaf i’r caeau. Fel roedd yr haul yn machlud cerddodd y mab ieuengaf yn araf i’r caeau. Arhosodd pan glywodd y broga’n canu wrth ymyl y ffynnon. “Dyna lais ardderchog sydd gen ti,” meddai wrth y broga. “Beth am i ti ganu unwaith eto.”
Dechreuodd y broga ganu nerth esgyrn ei ben.
“Gai rywbeth i’w fwyta?” gofynnodd y broga. Rhannodd y mab ieuengaf ei fwyd gyda’r broga.
“Mi ydw i am dy helpu di,” meddai’r broga. “Heno mi ydw i am ddod efo ti i’r caeau i ddal y lleidr. Gan dy fod ti wedi bod yn garedig efo mi, mi ydw i am fod yn garedig efo ti.
Pan oedd yn dywyll, dywyll daeth aderyn mawr du i lawr o’r awyr a dechrau bwyta’r gwenith. Neidiodd y broga a rhoi un naid fawr a gafaelodd yng nghoesau’r aderyn mawr du.
“Dyma fo, hwn ydi’r lleidr,” meddai wrth y mab ieuengaf.
Pan ddaeth y bore, aeth y mab ieuengaf adref yn llawen efo’r broga a’r aderyn mawr du.
“Gan fy mod i wedi bod yn garedig efo’r broga, fe wnaeth o fy helpu i ddal y lleidr,” meddai wrth ei dad.

O Dduw, wnei di fy nysgu i fod yn garedig wrth bob creadur byw. Amen.

- Pa mor bwysig ydi helpu’n gilydd?
- Sut fyddwch chi’n helpu a) adref b) yn yr ysgol?